



mis Medi 2022



**CBAC Lefel 3 Diploma Estynedig mewn
Iechyd a Gofal Cymdeithasol:
Egwyddorion a Chyd-destunau: Cefnogi
dysgwyr sy'n cychwyn ar eu cwrs ym**

Bydd y cymhwyster Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2024. Defnyddir cynnwys penodol o [fanyleb](#) gyhoeddedig y Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (gyda rhywfaint o symleiddio yn Uned 2 – gweler CBAC Cylchlythyr 114 am wybodaeth bellach) i lunio'r cymhwyster hwn. Hefyd, bydd ynddo feisydd cynnwys newydd fel ffisioleg ac anatomeg. Bydd y cynnwys newydd hwn ar gael i'w gyflwyno o fis Medi 2023.

Nid yw'n ofynnol i'r canolfannau gynnig y cymhwyster newydd hwn. Gall canolfannau sy'n cynnig y cymhwyster Diploma ynghyd â chymwysterau eraill ar hyn o bryd, er enghraifft y TAG Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, ddewis parhau i wneud hynny.

Os hoffai canolfannau gynnig y cymhwyster Diploma Estynedig i ddysgwyr sy'n cychwyn ar eu cwrs ym mis Medi 2022, efallai y bydd un neu fwy o'r opsiynau canlynol yn addas i'w defnyddio i gyflwyno 540 o oriau dysgu dan arweiniad ym mlwyddyn 1 (2022/23):

Opsiwn A: Cyflwyno unedau 1, 2, 3, 4 a 6

Mae cyfanswm o 180 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer unedau 4 a 6 ar y cyd. Byddai hynny, ynghyd ag unedau 1-3, yn dod i gyfanswm o 540 o oriau dysgu dan arweiniad.

Yn ystod ein cyfarfodydd cychwynnol i drafod y Diploma Estynedig, dywedodd llawer o'r canolfannau y byddent am ddechrau cyflwyno uned 6 ym mlwyddyn 1. Byddai gwneud hynny'n rhoi cyfle i ddysgwyr gael profiad o leoliad gwaith yn ystod eu blwyddyn gyntaf.

Dywedodd rhai canolfannau y byddent am gynnig uned 6 dros ddwy flynedd gyda'r asesiad yn digwydd ym mlwyddyn 2. Mae hyn yn bosibl yn rhan o strwythur y cymhwyster hwn gan nad oes trefn nac amser penodol y mae'n rhaid cofrestru dysgwyr i'w hasesu.

Opsiwn B: Cyflwyno Unedau 1, 2, 3 a 5

Mae 180 o oriau dysgu dan arweiniad wedi'u dyrannu i Uned 5; gallai canolfannau ddewis cyflwyno'r uned hon ar yr un pryd ag unedau 1-3. Mae cynnig yr uned hon ym mlwyddyn 1 yn golygu bod cyfle i gofrestru dysgwyr am arholiad allanol uned 5 yn Haf blwyddyn 1 (lle y bo hynny'n briodol) a chael dau gyfle i ailsefyll ym mlwyddyn 2 os bydd angen hynny.

Opsiwn C: Cyflwyno Unedau 1, 2 a 3 ar yr un pryd â'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd

Yn rhai canolfannau cynigir y cymhwyster Diploma a'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd dros ddwy flynedd. Mae'n bosibl defnyddio model arall sef cyflwyno'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd ym mlwyddyn 1 ar yr un pryd ag unedau 1, 2 a 3. Wedyn, gellid cyflwyno gweddill yr unedau sy'n rhan o'r Diploma Estynedig ym mlwyddyn 2.

Yn rhan o ddatblygiad y Diploma Estynedig byddwn ni hefyd yn cynnig y cyfle i gyflawni 540 o oriau dysgu dan arweiniad dros gyfnod o flwyddyn. Ar hyn o bryd, gellir dyfarnu'r Dystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau i ddysgwyr sy'n cwblhau eu hastudiaethau ar ddiwedd blwyddyn 1 ac yn dewis peidio â mynd ymlaen i flwyddyn 2. Bydd hyn yn seiliedig ar eu canlyniadau yn unedau 1-3.